



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECAD6003C

YR YMARFERYDD ADFYFYRIOL

**BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 6

YR ATHROFA

2019-2020

1. Manylion Cysylltu

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â:

- Cydlynnydd y Modwl: Dr Sioned V Hughes neu eich tiwtor prosiect ymchwil.

E-bost: s.v.hughes@uwtsd.ac.uk

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r cyfleoedd sydd gennych i gynnal ymchwil annibynnol ar destun o ddiddordeb personol.

Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol i'ch helpu gyda'ch gwaith ymchwil
- Mynychu pob darlith a thiwtorial
- Paratoi yn drwyadl a chyfrannu'n llawn mewn sesiynau
- Cadw cofnod o'ch presenoldeb mewn tiwtorialau
- Cynnal ymchwil gyda sylw dyladwy i foeseg
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Darllen Rheoliadau Myfyrwyr y Brifysgol.

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCAN

- Archwilio'n feirniadol ystod o safbwyntiau a fframweithiau damcaniaethol sy'n berthnasol i'r ysgol gynradd a defnyddio'r rhain i lywio'r gwaith o ddylunio, gweithredu a gwerthuso prosiect ymchwil ymarferol, seiliedig ar dystiolaeth, gyda'r bwriad o ddatblygu arfer dosbarth.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Ddewis maes arfer proffesiynol i'w datblygu a mynegi dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y maes hwn a fframweithiau damcaniaethol a pholisi perthnasol.
- Gwerthuso'n feirniadol ystod o destunau perthnasol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi, i nodi cysyniadau allweddol a defnyddio'r rhain i ffurfio dulliau addas ar gyfer dosbarth.
- Amlinellu'n feirniadol rhesymwaith ar gyfer dyluniad ymchwil priodl i strwythuro a rhoi'r dulliau hyn ar bawf.
- Nodi a mynd i'r afael â'r materion moesegol ac ansawdd perthnasol wrth gynllunio a gweithredu prosiect ymchwil.

Cysylltad â'r pedwar diben yn Cwricwlwm i Gymru 2022:

Er mwyn i blant a phobl ifanc ddatblygu:	Y cysylltiad yn y modiwl hwn: Bydd darpar athrawon yn gallu:
Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Tynnu ar y dystiolaeth empirig bresennol, a chyfrannu at y sail ymchwil er mwyn codi safonau a dyheadau ar gyfer yr holl ddysgwyr.
Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Defnyddio ymchwil agos at ymarfer i ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu creadigol sy'n hybu annibyniaeth ac yn dwyn perthynas â bywydau'r dysgwyr.
Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl yr athro proffesiynol/athrawes broffesiynol o ran deall sgiliau cymhleth ymarfer moesegol.
Yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Cymhwyso dealltwriaeth am theorïau ac ymchwil sy'n gysylltiedig â llesiant a datblygiad, i ymarfer personol.

BETH YW PWRPAS YMCHWIL?

Dibenion ymchwil yw cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth. Gwella'n dealltwriaeth o ymarfer a'r cyddestun mae'n digwydd ynddo yw'r nod. Yn gyffredinol y bwriad yw y bydd canlyniadau ymchwil yn darparu sail gadarn i eraill ddatblygu'u hymarfer proffesiynol eu hun.

BETH YW PROSIECT YMCHWIL?

At ddibenion y modwl hwn, diffinir prosiect ymchwil fel prosiect ymchwil 6,000 o eiriau sy'n rhoi cyfle i chi gynnal ymchwil annibynnol i destun yn ymwneud ag addysg yn yr ysgol gynradd. Bydd yn ofynnol i chi wneud y canlynol:

- llunio cwestiwn neu osodiad canolog
- mynd ati i archwilio'ch dewis o bwnc yn drwyadl
- datblygu dadl (trywydd meddwl clir)
- cyflwyno'ch gwaith mewn modd proffesiynol caboledig.

BYDD PROSIECT YMCHWIL DA:

- yn dangos bod gennych afael da ar y cysyniadau perthnasol a'ch bod yn barod i ddefnyddio'r rhain yn eich gwaith eich hun;
- yn glir ei nod a'i amcanion;
- wedi'i gynllunio'n dda ac yn seiliedig ar ymchwil eang;
- yn cynnwys dadansoddi, gwerthuso a thrafod beirniadol, yn hytrach na disgrifio syml; ac
- yn cynnwys cyfeiriadau cyson a chywir.

CYNLLUNIO EICH YMCHWIL

Dylid trafod y canlynol gyda'r tiwtor:

Teitl	yn nodi'n glir cynnwys y prosiect ymchwil mewn llai na 30 o eiriau.
Nod	datganiad cyffredinol o natur yr ymchwil wreiddiol.
Amcanion	y cwestiynau penodol y byddwch yn disgwyl eu hateb yn eich prosiect ymchwil a sut y byddwch yn cyflawni'r rhain. Mae'n debyg na fydd yn bosibl i chi nodi cwestiynau yn amcanion nes i chi gynnal arolwg o'r llenyddiaeth.
Ymchwil	nodi'r prif gyhoeddiadau y byddwch yn eu defnyddio i gyflawni'r amcanion yr ydych wedi'u nodi.
Amserlen	cytundeb ynghylch yr hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni ac erbyn pryd.

Cyn i chi ddechrau ar eich ymchwil, dylech fynd ati'n drefnus i wirio'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â'ch maes pwnc er mwyn gweld yr hyn sydd wedi'i gyhoeddi eisoes. Wrth ddarllen dewch yn ymwybodol am y tueddiadau presennol yn eich dewis o faes gan sicrhau bod eich gwaith yn wreiddiol ac nad ydych yn dyblygu gwaith rhywun arall. Ystyriwch ystod y llenyddiaeth yr hoffech ymchwilio iddi'n

ofalus. Defnyddio gwyddoniadur, geiriaduron arbenigol a llyfrau testun i gael trosolwg o'r pwnc ac egluro terminoleg a nodi aralleiriadau.

Ar ôl gwneud eich arolwg cychwynnol o'r llenyddiaeth dylech fod yn barod i ddiffinio'n derfynol union natur eich ymchwil a rhestru'r nod ac amcanion penodol o gofio cefndir eich dewis o faes astudio. Cofiwch ddiweddarw'ch astudiaeth o'r llenyddiaeth yn ystod eich gwaith ymchwil fel bod gennych gofnod pendant o'r hyn sy'n digwydd yn eich maes.

NODWEDDION CWESTIYNAU YMCHWIL DA:

- **Perthnasol:** Yn codi o faterion y tynnir sylw atynt mewn llenyddiaeth a/neu ymarfer, bydd y cwestiwn o ddiddordeb academiaidd a deallusol.
- **Hwylus:** Rhaid bod modd i chi fanteisio ar eich ffynonellau data (boed yn ddogfennau neu'n bobl), a rhoi ateb llawn a chytbwys i'ch cwestiwn.
- **Sylweddol a gwreiddiol:** Dylai'r cwestiwn arddangos eich galluoedd dychmygus, ni waeth pa mor seiliedig yw ar lenyddiaeth bresennol.
- **Dilys i'w asesu:** Cofiwch, rhaid i chi fodloni deilliannau dysgu eich cwrs.
- **Clir a syml:** Bydd cwestiwn ymchwil clir a syml yn mynd yn fwy cymhleth wrth i'ch ymchwil fynd yn ei flaen. Dechreuwch â chwestiwn clir ac wedyn ewch ati i balu o dan yr wyneb wrth ddarllen ac ysgrifennu.
- **Diddorol:** Gwnewch eich cwestiwn yn un diddorol. Cofiwch, byddwch yn meddwl am y cwestiwn hwn am nifer o fisoedd.

AM BETH Y DYLWN FOD YN MEDDWL WRTH DDEWIS FY NHESTUN?

Bydd gofyn i chi ddewis testun sy'n berthnasol ag addysgu yn yr ysgol gynradd. Dylai'r testun:

- ymwneud ag un agwedd ar addysg gynradd sy'n bwysig i chi;
- bod yn un y mae modd ymchwilio iddo a'i ateb – dylai fod yn faes y mae modd i chi gael gwybodaeth amdano a dod i gasgliadau amdano;
- bod yn ddigon pendant fel bod modd gwneud cyfiawnder ag ef oddi mewn i'r cyfyngiad o 6,000 o eiriau;
- eich galluogi i wneud cyfraniad newydd a gwreiddiol i ymchwil sy'n bodoli eisoes;
- elwa ar eich cryfderau (e.e. bod yn faes y mae gennych wybodaeth gadarn amdano);
- bod yn ddiddorol – cofiwch y byddwch yn gweithio ar y prosiect hwn am nifer o fisoedd.

O'r holl gamsyniadau posibl efallai mai'r mwyaf yw **gwneud y pwnc yn rhy eang**.

RHAI CWESTIYNAU Y GALLECH EU GOFYN WRTH YSTYRIED EICH CWESTIWN YMCHWIL

- A all fy ymchwil helpu i wella fy arfer fy hun a/neu arfer pobl eraill yn y dosbarth?
- Beth yw fy nodau a'm hamcanion?
- Sut y byddaf yn ateb y cwestiwn ymchwil (pa ddulliau ymchwil y byddaf yn eu defnyddio)?
- Sut y byddaf yn gwybod fy mod wedi ateb y cwestiwn yn dda?

ADFYFYRIO AR EICH YMCHWIL A'I GYNLLUNIO

Wedi i chi ddewis eich cwestiwn ymchwil bydd angen i chi adfyfrio arno. Meddyliwch ymhle y gallwch gael gafael ar ragor o wybodaeth. Mae'n syniad da trafod eich cwestiwn ag eraill. Darllenwch hefyd ddeunyddiau cyhoeddedig ac edrychwch ar y rhyngrwyd. Ceisiwch ddod o hyd i gymaint ag y gallwch am y testun cyn dechrau ysgrifennu.

Wedyn, bydd angen i chi gynllunio sut i gynnal eich ymchwil a pha offer ymchwil y bydd eu hangen arnoch i'w gwblhau. Meddyliwch hefyd faint o amser bydd pob rhan o'r prosiect ymchwil yn ei gymryd. Mae rheoli eich amser yn dda yn hanfodol i lwyddiant yn y modwl hwn.

YMCHWIL CYNRADD AC EILAIDD

Fe'ch anogir i gynnal ymchwil cynradd ac eilaidd.

- Cesglir data gwreiddiol at ddiben penodol ac mae'n wybodaeth newydd (e.e. arsylwi mewn dosbarth, cyfweiliadau).
- Mae ymchwil eilaidd yn casglu gwybodaeth sydd eisoes wedi ei chasglu (e.e. adroddiadau allweddol, erthyglau academiaidd/llyfrau, polisïau).

ENGHREIFFTIAU O DYSTIOLAETH Y GALLECH EI DEFNYDDIO YN EICH YMCHWIL GWREIDDOL

- Tystiolaeth ddogfennol megis polisïau dogfen, adroddiadau arolygiadau
- Manylion cyfweiliadau â chydlynwyr, athrawon, disgyblion neu bobl allweddol
- Gwaith disgyblion / ymatebion
- Tystiolaeth ffotograffig / wedi'i recordio
- Cynlluniau gwersi / gwerthusiadau
- Arsylwadau o arfer da

TREFNU EICH PROSIECT YMCHWIL

Bydd patrwm eich prosiect ymchwil yn dibynnu i raddau helaeth ar eich dewis o bwnc. Fodd bynnag, awgrymir eich bod yn glynu'n fras wrth y canlynol:

- Wynebddalen
- Diolchiadau
- Tudalen gynnwys
- Cyflwyniad
- Adolygiad Llenyddiaeth
- Methodoleg (Cynllun yr ymchwil)
- Canlyniadau a thrafodaeth
- Casgliadau
- Rhestr o gyfeirnodau (a llyfryddiaeth pe dymunech)
- Atodiadau

BETH Y GALLAF EI GYNNWYS YM MHOB ADRAN?

Wynebddalen

Dylid nodi yma deitl y prosiect ymchwil, eich enw, y cymhwyster y cyflwynir y prosiect ymchwil ar ei gyfer, enw'r brifysgol (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) a'r dyddiad (y mis a'r flwyddyn yn unig). Dylai'r teitl fod yn ddisgrifiad cryno a chywir o gynnwys y prosiect ymchwil. Rhoddir enghraifft isod.

Sut y gall Asesu ar gyfer Dysgu hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol ym maes AG yn CA2?
Harri Pugh
BA (Anrh) mewn Addysg Gynradd gyda SAC
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
Ebrill 2017

Clawr Blaen

Dylid cynnwys datganiad mai eich gwaith chi'n llwyr yw'r gwaith a geir yn y prosiect ymchwil, ac eithrio lle cyfeirir at waith eraill. Mae unrhyw waith y defnyddiwr heb gyfeirio ato yn weithred o lôn-ladrad, a fydd yn arwain at fethu'r modwl hwn.

Diolchiadau:

Gellir cydnabod pawb sydd wedi cynorthwyo naill ai gyda'r ymchwil neu gyda'r gwaith o ysgrifennu'r prosiect ymchwil, e.e. llyfrgellydd, goruchwyliwr.

Pennod 1: Cyflwyniad

Fel arfer dylai'r bennod hon gynnwys y canlynol:

- nodau'r astudiaeth a'ch rhesymwaith dros ei hysgrifennu.
- cefndir yr astudiaeth a pham mae'n bwysig.
- eich damcaniaeth –beth rydych chi'n meddwl sy'n digwydd
- crynodeb byr o'r dulliau ymchwil y byddwch yn eu defnyddio i archwilio eich testun.
- diffiniad o'r broblem/cwestiwn ac unrhyw dermau allweddol.
- rhesymau pam mae gennych ddiddordeb personol yn y testun.

Pennod 2: Adolygiad Llenyddiaeth

Dylai'r bennod hon gynnwys archwiliad trwyadl o'r llenyddiaeth yn eich maes ymchwil. Dylai'r adran ddangos:

- bod gennych ddealltwriaeth dda o'ch testun ymchwil, eich bod yn gallu ei roi mewn cyd-destun academiaidd, ac yn gallu nodi ymchwil pwysig sydd eisoes wedi'i gyflawni sydd yn berthnasol iddo.
- eich bod yn adeiladu ar yr ymchwil sydd eisoes wedi'i gyflawni gan eraill am eich testun.
- bod eich gwaith yn gyfredol.
- eich bod yn gallu adnabod bylchau yn yr ymchwil presennol.
- eich bod yn ymwybodol o unrhyw safbwyntiau gwahanol am eich testun.
- eich bod yn gallu bod yn werthusol, ac os oes angen, yn feirniadol o'r ymchwil cyfredol.
- eich bod yn gallu adnabod meysydd y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt.

- eich bod yn gallu dangos sut mae eich ymchwil yn berthnasol i ymchwil a gynhaliwyd yn flaenorol.
- eich bod yn gallu cyfeirnodî'ch gwaith yn briodol.
- eich bod yn ymwybodol o waith awduron allweddol ac ymchwil diweddar yn eich dewis faes.
- bod yr holl ffynonellau wedi cael eu cydnabod a'u cyfeirnodî'n gywir yn unol â chanllawiau'r brifysgol.

Pennod 3: Methodoleg (Cynllun yr ymchwil)

Dylai'r bennod hon:

- egluro pa ddulliau a ddefnyddiwyd gennych i ateb eich cwestiwn ymchwil.
- cyfiawnhau a gwerthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd.
- cynnwys manylion am y modd y casglwyd ac y dadansoddwyd y dystiolaeth.
- darparu digon o fanylion fel bod modd ailadrodd yr astudiaeth.
- darparu manylion am y cynllun ymchwil a'r sampl.
- trafod unrhyw gyfyngiadau yn eich astudiaeth a nodi awgrymiadau sut y gellir ei wella.

Pennod 4: Canlyniadau a Thrafodaeth

Yn y bennod hon dylech:

- ddarparu disgrifiad clir a phendant o'r hyn a ddysgoch.
- perthnasu eich dystiolaeth i'r cwestiynau ymchwil a'r adolygiad llenyddiaeth.
- disgrifio unrhyw dablau a graffiau os yn berthnasol (astudiaeth feintiol).
- disgrifio canlyniadau unrhyw sylwadau, cyfweiliadau neu ddisgrifiadau ysgrifenedig gan gyfranogwyr (astudiaeth ansoddol)
- dehongi a thrafod arwyddocâd eich canlyniadau.
- gwneud cysylltiadau priodol â'r adolygiad llenyddiaeth.
- trafod unrhyw broblemau neu faterion dadleuol.

Pennod 5: Casgliad

Dylai'r bennod hon:

- grynhoi eich astudiaeth yn fyr.
- dod i gasgliadau synhwyrol sy'n dilyn ymlaen o'ch dystiolaeth a'ch canfyddiadau.
- cyflwyno rhai awgrymiadau ar gyfer cyfeiriad ymchwil yn y dyfodol.
- trafod eich dysgu proffesiynol o ganlyniad i wneud yr astudiaeth.
- archwilio oblygiadau ehangach eich astudiaeth.

Atodiadau

Dylech gynnwys yn yr adran hon unrhyw ddeunydd a fyddai'n cydblethu'r prif destun pe bai'n cael ei gynnwys yno, er enghraifft, trawsgrifiadau, cyfweiliadau, data ar arsylwadau a gyflawnwyd a holiaduron. Peidiwch a chynnwys unrhyw beth sy'n amherthnasol. Dylid cynnwys deunydd sydd wedi cael ei gyfeirio ato ym mhrif gorff y prosiect ymchwil yn unig.

Cyfeiriadau

Yn yr adran hon dylid nodi'r holl ddeunyddiau y cyfeirir atynt yn y testun.

Nid yw'r crynodeb, yr atodiadau na'r cyfeiriadau i'w cynnwys yn eich cyfrif geiriau.

Noder bod cynllun prosiectau ymchwil yn debygol o amrywio rhwng gwahanol fyfyrwyr. Mae hyn yn berffaith dderbyniol. Yr hyn sy'n hanfodol, fodd bynnag, yw eich bod wedi trafod a chytuno ar eich cynllun gyda'ch tiwtor.

BYDDWCH YN GWYBOD EICH BOD WEDI LLUNIO PROSIECT YMCHWIL DILYS OS BYDD GENNYCH...

- gwestiwn ymchwil dilys
- nod cryf wedi'i ddatgan sy'n deillio o'r cwestiwn ymchwil cychwynnol
- amcanion priodol sy'n cyflawni'r nod a gyhoeddir
- strwythur damcaniaethol y mae cyfiawnhad cryf drosto ac sy'n briodol
- cyfiawnhad da dros y llenyddiaeth a gynhwysir ac a eithrir
- trafodaeth gadarn o'r hyn y mae'r llenyddiaeth yn ei ddweud am y pwnc
- casgliadau cryf sy'n deillio o'ch ymchwil ac sy'n ateb y cwestiwn ymchwil yn ddeallus
- strwythur ac arddull priodol
- ateb i'ch cwestiwn ymchwil sydd wedi'i roi mewn modd deallus ac academiaidd
- gwreiddioldeb
- tystiolaeth o feddwl yn annibynnol
- arddangosiad o allu i weithio'n annibynnol
- dull o gyflwyno'ch gwaith sy'n briodol ac yn academiaidd
- cyfeiriadau priodol at eich gwaith
- arwyddion eich bod wedi gwneud yn fawr o'ch goruchwylwr

MOESEG YMCHWIL

Rhaid cyflawni pob ymchwil mewn dull moesegol, heb ecsploetio eraill neu dorri rheolau moesegol cytûn. Darllenwch a chadwch at y *Datganiad Moeseg* a amlinellir yn **Atodiad 1** o'r ddogfen hon. Cymerwch gyngor am unrhyw faterion moesegol sy'n codi o natur eich astudiaeth benodol. Hefyd cadwch at y canllawiau a ddarperir gan BERA ar y gwefan canlynol: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

Gofynnwch am gydsyniad y pennaeth bob tro cyn tynnu lluniau neu ffilmio plant. Wrth ymgymryd â gweithgaredd o'r math hwn gwnewch yn siŵr bod copi o'r ffurflen gydsynio yn cael ei arwyddo gan bawb sy'n ymwneud â'r digwyddiad. (Gweler **Atodiad 2**).

Wedi i chi gytuno ar ffocws ymholiad y prosiect ymchwil, mae'n rhaid i chi gyflwyno **Ffurflen Foeseg PG2/E1** cyn i chi ddechrau eich prosiect ymchwil. Bydd tiwtoriaid yn eich cynorthwyo i wneud hyn yn ystod y rhaglen o ddarlithoedd a thiwtorialau. Bydd y ffurflenni a gwblhawyd wedyn yn amodol ar archwiliad a chytundeb Pwyllgor Moeseg yr Athrofa. Rhaid cael cytundeb y Pwyllgor Moeseg cyn i chi allu cychwyn eich prosiect ymchwil. Gwelir y ffurflen hon yn Atodiad 1.

ARDDULL YSGRIFENNU

Dylid ysgrifennu'r prosiect ymchwil yn y 3ydd person, amser gorffennol, e.e. "Canfu'r awdur fod (neu Canfuwyd bod) yr holl athrawon yn yr astudiaeth " ac nid "Canfyddaf fod yr holl athrawon yn yr astudiaeth. "

Dylid ysgrifennu'r traethawd mewn arddull ffurfiol. Peidiwch â defnyddio geiriau wedi'u cwtogi (dwi, ayb) na thalfyriadau llaw fer megis "e.e.". Gwnewch yn siŵr fod y gwaith wedi'i ysgrifennu'n gryno, nad oes ynddo unrhyw wallau gramadegol na gwallau sillafu, a'i fod yn cyflwyno dadl ddilys sy'n seiliedig ar ymchwil cadarn.

GWNEUD CYFEIRIADAU A LLÊN-LADRAD

Mae'n bwysig iawn cadw manylion llawn y ffynonellau gwybodaeth rydych yn eu defnyddio wrth wneud nodiadau. Bydd angen ichi gynnwys y wybodaeth hon yn eich rhestr gyfeiriadau. Os na fyddwch yn cynnwys y wybodaeth hon yn eich gwaith asesu efallai gwelwch eich bod yn torri'r Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Dulliau Annheg. Hefyd dylech gadw'ch nodiadau ar ôl i chi gyflwyno'ch gwaith. Gallent fod yn ddefnyddiol i'ch amddiffyn os byddwch yn cael eich cyhuddo o lôn-ladrad. At hynny, efallai byddant o gymorth wrth adolygu yn ogystal ag ar gyfer gweithgareddau dysgu ac addysgu eraill.

Am wybodaeth bellach am lôn-ladrad, gwelwch adran 3 Rheoliadau'r Brifysgol : Canllaw i Fyfyrrwyr. Mae'r Athrofa yn defnyddio Turnitin i adnabod unrhyw gynnwys sy'n achos o lôn-ladrad mewn aseiniadau ysgrifenedig. Er mwyn eich cynorthwyo i wirio eich gwaith eich hun cyn ei gyflwyno, darperir hyfforddiant i chi ar sut y gallwch ddefnyddio Turnitin ar y system Moodle.

DYFYNNU CYFEIRIADAU

Cyfeiriwch at **Llawlyfr Cyfeirnod Y Brifysgol** am arweiniad ynglŷn â'r holl anghenion yn ymwneud â'r defnydd cywir o System Gyfeirnod Harvard. <https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/library-and-learning-resources/Harvard-cym.pdf>

CYFLWYNO'CH GWAITH

- Defnyddiwch ffontiau 'Times New Roman' neu 'Arial'.
 - Defnyddiwch ffont maint 11 neu 12.
 - Defnyddiwch fylchiad llinellau 1.5
 - Gadewch ymyl digonol ar bob un o bedair ochr y darn o bapur.
 - Peidiwch fewnoli paragraffau ond gadewch fwlch ychwanegol rhyngddynt.
 - Dylai dyfyniadau hir fod mewn bylchiad llinellau sengl ac wedi'u mewnoli ar y ddwy ochr.
 - Dylai cyfeiriadau fod mewn bylchiad llinellau sengl gyda bwlch rhwng pob cyfeiriad unigol ac wedi'u fformatio gyda mewnoliad crog er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng eitemau.
 - Sicrhewch fod taflen glawr ar eich prosiect ymchwil sy'n rhoi'ch rhif myfyriwr, teitl y modwl a'r tiwtor, teitl y prosiect ymchwil, dyddiad cyflwyno.
 - Fel arfer NI dderbynnir methiant cyfrifiaduron fel rheswm am gyflwyno gwaith yn hwyr!
- Cyn cyflwyno eich prosiect ymchwil cwblhewch y '**Rhestr Wirio Ymchwil Prosiect**' (Gweler Atodiad 3).

5. Crynodeb o'r modwl

Bydd dull cyflwyno'r modwl yn gymysgedd o **ddarlithoedd** a **thiwtorïalau**. Bydd y darlithoedd wedi eu strwythuro i gyflwyno canllawiau penodol er mwyn mynd i'r afael â her y prosiect ymchwil. Caiff myfyrwyr eu rhoi mewn grwpiau gyda thiwtor sy'n goruchwyllo'r prosiect ymchwil. Fe fydd 5 sesiwn tiwtorial. Mae presenoldeb yn y tiwtorialau yn orfodol ac fe'u cynlluniwyd i gynnig cyfle i chi drafod eich amcanion ymchwil a chynnydd yn wythnosol. (Gweler **Atodiad 4**).

Yn ystod y modwl fe fydd cyfle i chi gymryd rhan mewn **profiad 'dewisol'** sy'n cael ei gynnig gan ysgol bartner ac sy'n wahanol i'r profiad proffesiynol. Mae'r profiad 'dewisol' yn eich galluogi i ddatblygu dealltwriaeth dyfnach o syniadau a chysyniadau allweddol mewn maes dysgu neu phrofiad dewisol, er enghraifft: llythrennedd, iechyd a lles, dysgu yn yr awyr agored, pontio/trosglwyddo (transition) neu gweithio gyda'r gymuned ehangach. Yn ystod y profiad 'dewisol' fe fydd angen i chi wneud ymchwil gweithredol drwy gasglu data primaidd ar gyfer eich prosiect ymchwil. Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau ymchwil megis arsylwadau gwersi, cyfweiliadau (cydlynnydd, athrawon, cynorthwywyr, dysgwyr), dyddiadur myfyrio, treialu adnoddau a strategaethau addysgu. Am wybodaeth pellach, gweler 'Llawlyfr Profiadau Dewisol' ar moodle a/neu cysylltwch gyda Dr. Ceri Lewis, c.j.lewis@uwtsd.ac.uk

Sesiwn	Cynnwys	Tiwtor	3A (rhwydwaith Cymraeg)	3B/C (rhwydwaith Saesneg)
Sesiwn Ymchwil 1 2awr 28/01/20	Cyflwyniad i gyd-destun ymchwil – nodau ac amcanion y modwl; dewis cwestiwn ymchwil; ymchwil cynradd ac eilaidd; materion moesegol; problemau posibl.	SVH	11-1 y.p.	9-11 y.b.
Sesiwn Ymchwil 2 2 awr 28/01/20	Dulliau ymchwil mewn addysg – arsylwi; cyfweiliadau; arolygon; astudiaethau achos ac ymchwil gweithredol.	SVH	3-5 y.p.	1-3 y.p.
Tiwtorïal 1 30/01/20	Cadarnhau'r ffocws ymchwil/ cwestiwn ac archwilio dulliau ymchwil – ystyried adolygiad llenyddiaeth; targed o dasg ymchwil a chwblhau wythnosol.	SVH a'r tîm	9-12 y.p. (tua 8 myfyriwr i bob tiwtor – tiwtor i drefnu ystafell/amser tiwtorial.)*	
Sesiwn Ymchwil 3 2 awr 04/02/20	Moeseg ac ymchwil – arfer moesegol ac ymchwil moesegol. Casglu tystiolaeth ar gyfer eich prosiect ymchwil –tystiolaeth llenyddiaeth – seiliedig; cyfweiliadau gyda phobl	SVH	11-1 y.p.	9-11 y.b.

	broffesiynol; arsylwi yn y dosbarth; Gwaith disgyblion; polisïau ysgol a thystiolaeth ffotograffig/fideo.			
Sesiwn Ymchwil 4 2 awr 04/02/20	Ysgrifennu, golygu a chyflwyno eich prosiect ymchwil – cyflwyniad, adolygiad llenyddiaeth; methodoleg; dadansoddiad o’r canlyniadau; casgliad; atodiadau; cyfeirnodau; ysgrifennu mewn arddull academaidd a golygu eich gwaith.	SVH	3-5y.p.	1-3y.p.
Tiwtorial 2 06/02/20	Yr ymchwil a wnaed; cwblhau a chyflwyno’r Ffurflen Foeseg; targed o dasg ymchwil a chwblhau wythnosol. Rhaid cwblhau’r Ffurflen Foeseg a’i chyflwyno i s.v.hughes@uwtsd.ac.uk erbyn diwedd y dydd (06/02/20)	SVH a’r tîm	9-12 y.p. (tua 8 myfyriwr i bob tiwtor – tiwtor i drefnu ystafell/amser tiwtorial.)*	
PROFIAD DEWISOL 5 DIWRNOD MEWN YSGOL = 10/02/20 – 14/02/20 Yn ystod y cyfnod yma fe fydd cyfle i chi gasglu data primaidd ar gyfer eich prosiect ymchwil (e.e. cyfweiliadau, arsylwadau, treialu adnoddau, strategaethau addysgu; taith gerdded addysgu, a.y.y.b.)				
Tiwtorial 3 20/02/20	Adolygu’r ymchwil a wnaed a gweithredu – adolygu’r data a gasglwyd ar y profiad dewisol; targed o dasg ymchwil a chwblhau wythnosol.	SVH a’r tîm	9-12 y.p. (tua 8 myfyriwr i bob tiwtor – tiwtor i drefnu ystafell/amser tiwtorial.)*	
PROFIAD DEWISOL 2 DDIWRNOD MEWN YSGOL = 24/02/20 – 25/02/20 Yn ystod y cyfnod yma fe fydd cyfle i chi gasglu data primaidd ar gyfer eich prosiect ymchwil a rhannu eich canlyniadau/y camau nesaf gyda’r ysgol.				
Tiwtorial 4 05/03/20	Adolygu’r ymchwil a wnaed– adolygu’r data a gasglwyd ar y profiad dewisol; ystyried canlyniadau a’r drafodaeth; targed o dasg ymchwil a chwblhau wythnosol.	SVH a’r tîm	9-12 y.p. (tua 8 myfyriwr i bob tiwtor – tiwtor i drefnu ystafell/amser tiwtorial.)*	
Tiwtorial 5 12/03/20	Adolygu’r ymchwil a wnaed– cefnogaeth gyda ysgrifennu’r prosiect, e.e. adolygiad llenyddiaeth, methodoleg, canlyniadau a thrafodaeth; casgliad; targed o dasg ymchwil a chwblhau wythnosol.	SVH a’r tîm	9-12 y.p. (tua 8 myfyriwr i bob tiwtor – tiwtor i drefnu ystafell/amser tiwtorial.)*	

*Efallai y bydd Dyddiad/Amer y Tiwtorialau yn newid yn dilyn argaeledd/amserlen y tiwtor.

6. Tasgau ac arweiniad asesu

CÔD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ECAD6003C	Yr Ymarferydd Adfyfyriol	Prosiect Ymchwil (cyfwerth â 6000 o eiriau) Dyddiad cyflwyno: 20/03/20 (erbyn 23:59)

Am wybodaeth pellach parthed asesu a chanllawiau gweler **ffurflen Manyleb Asesu** (ar Moodle).

Hanfodol

Austin, R. (2016) *Researching Primary Education*. Llundain: Sage publications.

Bell, J. & Waters, S. (2018) *Doing your Research Project: A Guide for First-time Researchers*. 7^{fed} argraffiad. Llundain: Open University Press.

British Educational Research Guidelines (BERA, 2018).

<https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education*. 7^{fed} argraffiad. Llundain: Routledge. (ar gael ar Moodle) rme-edu-helpline-blogspot-com

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015) *Ymarfer Myfyriol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (copi ar Moodle).

Llywodraeth Cymru (2015) *Gwneud defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth ymchwil*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (copi ar Moodle).

Pollard, A. (2014) *Reflective Teaching in School*. 3ydd argraffiad. Llundain: Bloomsbury

Punch, K.F. (2009) *Introduction to Research Methods in Education*. Llundain: Sage publications.

Thomas, G. (2017) *How to do your Research Project*. 3rd edition. Llundain: Sage publications.

Argymhellir

Coles, A. & McGrath, J. (2010) *Your Education Research Project Handbook*. Harlow: Pearson Education.

Dawson, C. (2009) *Introduction to Research Methods: practical guide for anyone undertaking a research project*. Oxford: How to Books Ltd.

Denscome, M. (2017) *The Good Research Guide: for small-scale social research projects*. 6^{ed} argraffiad. Rhydychen: Open University Press.

Lewis, I., & Munn, P. (2004) *So You Want to Do Research? A Guide for Teacher's on How to Formulate Research Questions*. Caeredin: Scottish Council for Research in Education.

Palaiologou, I., Needham, D., & Male, T. (2016) *Doing Research in Education: Theory and Practice*. Llundain: Sage Publications.

Sharp, J. (2012) *Success with your Education Research Project*. 2^{il} argraffiad. Llundain: Sage Publications.

Thomas, G. (2017) *How to do your Reaearch Project: A Guide for Students*. 3^{ydd} argraffiad. Llundain: SAGE.

Wilkinson, D. (2000) *The Researcher's Toolkit: the complete guide to practitioner research*. Llundain: Routledge.

Cofnodolion

Mae pob cofnodolyn ymchwil mewn addysg yn berthnasol ar gyfer y modwl yma, e.e.

Educational Action Research

British Education Research Journal

Education 3-13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education

Gwefannau

BERA <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

EWC <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/policy-hub/practitioner-research/research-methods.cfm>

National Foundation for Educational Research (NFER)
<http://www.nfer.ac.uk/schools/developing-young-researchers/how-to-choose-your-research-methods.cfm>

HWB – Professional learning: Schools as Learning Organisations
<https://hwb.gov.wales/professional-development/schools-as-learning-organisations/>

ATODIAD 1

Datganiad Moeseg

Egwyddorion Cyffredinol:

- Bydd pob ymchwil/gweithgaredd a gyflawnir o fewn yr Athrofa, naill ai fel ymchwil annibynnol neu wrth baratoi ar gyfer aseiniadau penodol, yn cadw at God Ymarfer Moeseg Ymchwil a Chyfle Cyfartal y Brifysgol, a bydd yn cael ei gyflawni yn unol â'r canllawiau cyffredinol a roddir yma yn ogystal â chanllawiau moesegol mwyaf diweddar BERA, y gellir eu gweld yn <http://www.bera.ac.uk/publications/guides.php>
- Egwyddorion sy'n tanategu Moeseg o fewn Yr Athrofa (HGA):
Dylai pob gwaith a wneir o fewn neu ar ran y Ganolfan gael ei gyflawni gyda pharch moesegol at:
 - Y person
 - Wybodaeth Fanwl Gywir
 - Werthoedd Democrataidd
 - Gyfle Cyfartal
- Mae'r Athrofa yn cydnabod bod dimensiwn moesegol i astudiaeth ac ymarfer pob rhaglen o fewn Yr Athrofa ac mae'n darparu'r canllawiau canlynol ar gyfer pob gweithgaredd ysgrifenedig ac ar leoliad a gyflawnir o fewn yr Athrofa.
- Fel Yr Athrofa rydym yn ymwybodol bod gennym amrywiaeth eang o rolau a chyfrifoldebau a bod y rhain yn cynnwys staff a myfyrwr. Mae'r datganiad moeseg hwn yn cwmpasu'r holl staff, darlithwyr a chynorthwywyr ymchwil; myfyrwyr israddedig a myfyrwyr graddedig. Mae'r datganiad hwn hefyd yn cydnabod y ffaith fod myfyrwyr o fewn HGA yn treulio cyfnod arwyddocaol o amser ar leoliad o fewn ysgolion.

Canllawiau Cyffredinol

1. Dylid ceisio cydsyniad gwybodus ymhob achos ynghyd â hysbysiad i bob cyfranogwr fod ganddo/ganddi hawl i dynnu yn ôl o gymryd rhan mewn ymchwil / gweithgarwch dan arweiniad myfyriwr / darlithydd / cynorthwy-ydd ymchwil.
2. Mae'r Athrofa yn gofyn i bob myfyriwr / darlithydd / cynorthwy-ydd ymchwil gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol berthnasol. Pan fydd gwaith yn cael ei wneud gyda phlant, mae'r Athrofa yn ystyried bod rhaid gwneud buddiannau'r plentyn yn brif ystyriaeth ac y dylid clywed llais y plentyn. Mae'r Athrofa hefyd yn ystyried bod gan unrhyw blentyn hawl i fynegi'i farn a'i gydsyniad a dylid ceisio cydsyniad yr ysgol letyol a rhieni / gwarcheidwaid y plant.
3. Mae'r Athrofa hefyd yn ystyried y dylai hyn fod yn gymwys i unrhyw waith sy'n cael ei wneud gan y myfyriwr / darlithydd / cynorthwy-ydd ymchwil mewn cyd-destunau sy'n ymwneud â phobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed.

4. Os bydd myfyriwr / darlithydd / cynorthwy-ydd ymchwil yn yr Athrofa yn ansicr ynglŷn â materion moesol neu foesegol sy'n codi, er enghraifft, wrth weithio gyda / ymchwilio i grwpiau sy'n agored i niwed, dylai'r unigolyn godi'i bryderon gyda'r Cyfarwyddwr Rhaglen. Bydd Cyfarwyddwyr Rhaglen yn barnu ar y mater neu bydd yn ceisio cyngor gan y Pwyllgor Moeseg.
5. Cyn dechrau ar brosiectau sy'n ymwneud ag unigolion neu grwpiau, bydd pob myfyriwr yn mynychu darlith arweiniol cyn cychwyn y project. Bydd hwn yn atgyfnerthu'r materion moesegol sy'n gysylltiedig ag ymchwil / gweithgarwch o'r fath.
6. Ni fydd unrhyw unigolyn yn cael ei adnabod wrth ei enw, sefydliad na darlun o fewn aseiniad neu ddogfen ymchwil heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr unigolyn / sefydliad perthnasol.
7. Mae'r Ddeddf Diogelu Data hefyd yn rhoi'r hawl i bawb sy'n ymwneud ag ymchwil (myfyriwr/darlithydd/cynorthwy-ydd ymchwil) i unrhyw ddata personol sy'n cael eu storio amdanynt.
8. Diben yr holl waith sy'n cael ei gyflawni gan yr Athrofa yw cefnogi a datblygu addysg ac ymchwil / gweithgarwch yr hyfforddeion mewn addysg. Bydd y dyletswydd i ofalu am unigolyn neu grŵp bob amser yn cymryd blaenoriaeth dros ofynion addysgol unrhyw aseiniad / project.
9. Wrth gyhoeddi unrhyw waith a wneir gan fyfyrwr, dylid nodi enw'r hyfforddai yn gyntaf fel y prif awdur. Wedyn byddai enwau'r darlithydd/darlithwyr oedd yn arolygu'r gwaith yn dilyn.

CAIS AM GYMERADWYAETH FOESEGOL

Er mwyn i fudd ddeillio o ymchwil ac i leihau'r risg o niwed, mae'n rhaid ei gynnal yn foesebol. Mae'n bosibl na fydd ymchwilydd wedi'i ddiogelu gan yswiriant y Brifysgol os na chafwyd cymeradwyaeth foesebol cyn cychwyn.

Mae'r Brifysgol yn dilyn diffiniad yr OECD o **weithgarwch ymchwil** a geir yn llawlyfr Frascati: "gwaith creadigol a gyflawnir mewn modd systematig er mwyn cynyddu'r stôr o wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth am ddyn, diwylliant a chymdeithas, a'r defnydd o'r stôr hwn o wybodaeth i lunio cymwysiadau newydd". Yn hynny o beth, mae hyn yn cwmpasu gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau'r staff, myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, a myfyrwyr ôl-raddedig ac israddedig a addysgir sy'n gweithio ar draethodau hir/prosiectau.

Gelwir yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch ymchwil yn "brif ymchwilydd".

Nid oes angen cymeradwyaeth foesebol ar gyfer archwiliadau arferol, adolygiadau perfformiad, astudiaethau sicrhau ansawdd, profion o fewn gofynion addysgol arferol, a beirniadaeth lenyddol neu artistig.

Darllenwch y nodiadau canllaw cyn cwblhau HOLL adrannau'r ffurflen.

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau a'i chymeradwyo cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ymchwil. Gweler y Rhestr Wirio am fanylion y broses ar gyfer categorïau gwahanol o geisiadau.

ADRAN A: Amdanoch Chi (Prif Ymchwilydd)

Enw llawn:					
Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol:					
Aelod o staff:	☐	Myfyriwr:	☐	Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus:	☐
Cyfadran/Ysgol/Canolfan:					
Campws:					
Cyfeiriad e-bost:					
Rhif Ffôn Cyswllt:					
I fyfyrwyr:					
Rhif Myfyriwr:			Israddedig	☐	
Rhaglen Astudio:			Ôl-raddedig a Addysgir	☐	
Cyfarwyddwr Astudiaethau/ Goruchwyliwr:			Ymchwil	☐	

ADRAN B: Cymeradwyaeth ar gyfer Gweithgarwch Ymchwil

A yw'r gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor? (gweler y Nodiadau Canllaw ynglŷn â'r broses gymeradwyo briodol ar gyfer lefelau ymchwil gwahanol gan gategorïau gwahanol o unigolion)	YDY	☐	NAC YDY	☐
				Dyddiad
Os Ydy, nodwch ffynhonnell y	Pwyllgor Graddau Ymchwil	☐		

gymeradwyaeth (a'r dyddiad os yw'n wybyddus)	Pwyllgor Ymchwil y Gyfadran	☐	
	Arall (noder)	☐	

Mae'n **rhaidd** cael cymeradwyaeth mewn egwyddor gan y ffynhonnell berthnasol cyn gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol.

ADRAN C: Deunyddiau Canllaw Moesegol Allanol

Rhestrwch y dogfennau canllaw moesegol craidd y cyfeiriwyd atynt wrth gwblhau'r ffurflen hon (gan gynnwys unrhyw godau moeseg ymchwil penodol i'r ddisgyblaeth, a hefyd unrhyw ganllawiau moesegol penodol yn ymwneud â'r fethodoleg arfaethedig). Ticiwch i gadarnhau fod eich cynnig ymchwil yn cydymffurfio â'r codau a'r canllawiau hyn.	
	☐
	☐
	☐

ADRAN D: Gweithgarwch Ymchwil Cydweithredol Allanol

A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys cydweithwyr y tu allan i'r Brifysgol?	YDY	☐	NAC YDY	☐
Os Ydy, rhwng enw'r sefydliad allanol ac enw a manylion cyswllt y prif berson cyswllt:				
Sefydliad				
Enw'r person cyswllt				
Cyfeiriad e-bost y person cyswllt				

Pan fo'r gweithgarwch ymchwil yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â sefydliad allanol

A oes gan y sefydliad hwn ei system cymeradwyaeth foesegol ei hun?	OES	☐	NAC OES	☐
Os Oes, atodwch gopi o unrhyw gymeradwyaeth derfynol (neu gymeradwyaeth interim) gan y sefydliad				

ADRAN E: Manylion y Gweithgarwch Ymchwil

Teitl dangosol:			
Dyddiad cychwyn arfaethedig:		Dyddiad gorffen arfaethedig:	
Pwrpas y gweithgarwch ymchwil (yn cynnwys nodau ac amcanion) Amlinellwch bwrpas, nodau ac amcanion y gweithgarwch ymchwil, yn cynnwys cwestiynau ymchwil allweddol. Dangoswch yn gryno sut mae ymchwil cyfredol wedi llywio'r gweithgarwch arfaethedig ac eglurwch beth bydd y gweithgarwch ymchwil yn ei ychwanegu a sut mae'n mynd i'r afael â maes pwysig. (Uchafswm o 300 o eiriau)			
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)			
Dulliau arfaethedig Rhodwch grynodeb byr o'r holl ddulliau y gellid eu defnyddio yn y gweithgarwch ymchwil, gan ei gwneud yn glir pa dechnegau penodol fydd o bosibl yn cael eu defnyddio. Os ystyrir yn ddiweddarach bod dulliau heblaw am y rhai a restrwyd yn yr adran hon yn briodol, bydd angen cymeradwyaeth foesegol ychwanegol ar gyfer y dulliau hynny. (Uchafswm o 600 o eiriau)			
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)			
Lleoliad y gweithgarwch ymchwil Nodwch yr holl leoliadau lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil.			

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Gweithgarwch ymchwil y tu allan i'r DU

Os cynhelir gweithgarwch ymchwil dramor, chi sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir ag ystyriaethau moesegol lleol ac y ceisir y caniatâd perthnasol. Nodwch unrhyw ganllawiau lleol sy'n bodoli (e.e. gan gymdeithasau proffesiynol lleol/cymdeithasau dysgedig/prifysgolion) a nodwch a yw'r rhain yn cynnwys amodau moesegol y tu hwnt i'r hyn sy'n arferol yn y DU (rhowch fanylion unrhyw drwyddedau neu ganiatâd sydd eu hangen). Yn ogystal nodwch a oes unrhyw faterion moesegol penodol yn codi yn sgil y cyd-destun lleol lle cynhelir y gweithgarwch ymchwil, er enghraifft, materion diwylliannol sensitif neu achosion lle mae'r cyfranogwyr yn agored i niwed.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

ADRAN F: Cwmpas y Gweithgarwch Ymchwil

A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys:	BYDD	NA FYDD
Defnyddio holiadur neu offeryn ymchwil tebyg?	☐	☐
Defnyddio cyfweiliadau?	☐	☐
Defnyddio dyddiaduron?	☐	☐
Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau'n ymwybodol o hynny?	☐	☐
Arsylwi ar gyfranogwyr a hwythau ddim yn ymwybodol o hynny?	☐	☐
Defnyddio recordio fideo neu sain?	☐	☐
Mynediad i wybodaeth bersonol neu gyfrinachol heb gydsyniad penodol y cyfranogwyr?	☐	☐
Defnyddio unrhyw gwestiynau, ysgogiadau prawf neu gyflwyniad a allai, ym mhrofiad rhai, achosi niwed / tramgwydd corfforol, meddyliol neu emosiynol?	☐	☐
Cyflawni unrhyw weithredoedd a allai achosi embaras neu effeithio ar hunan-barch?	☐	☐
Ymchwilio i gyfranogwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon?	☐	☐
Defnyddio gweithdrefnau sy'n cynnwys twyll?	☐	☐
Gweini unrhyw sylwedd, cyfrwng neu blasebo?	☐	☐
Gweithio gydag anifeiliaid fertebraidd byw?	☐	☐
Dulliau eraill o gasglu data gwreiddiol. Eglurwch yn y blwch hwn	☐	☐

Os atebwyd NA FYDD i bob cwestiwn, yna mae'r gweithgarwch ymchwil yn isel ei risg (yn foesegol) a **gall** fod wedi'i eithrio rhag **rhai** o'r adrannau canlynol (gweler y Nodiadau Canllaw).

Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, ni ddylid ymgymryd â gweithgarwch ymchwil tan y ceir cymeradwyaeth foesegol lawn.

ADRAN G: Cyfranogwyr Arfaethedig

Pwy yw'r cyfranogwyr arfaethedig:	IE	NA
Myfyrwyr neu staff yn y Brifysgol?	☐	☐
Oedolion (dros 18 oed ac sy'n gymwys i gydsynio)?	☐	☐
Oedolion agored i niwed?	☐	☐
Plant dan 18?	☐	☐
Carcharorion?	☐	☐
Troseddwyr ifanc?	☐	☐
Y rhai y gellid ystyried bod ganddynt berthynas arbennig o ddibynnol â'r ymchwilydd neu ddiolwr?	☐	☐
Pobl sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithiol?	☐	☐
Eraill (noder):	☐	☐

Niferoedd a ffynhonnell y cyfranogwyr

Rhowch amcangyfrif o'r nifer disgwylidig o gyfranogwyr. Sut byddwch chi'n dynodi cyfranogwyr a sut cânt eu recriwtio?

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Gwybodaeth i gyfranogwyr:	BYDDAF	NA FYDDAF	AMH.
A fyddwch chi'n disgrifio'r prif weithdrefnau ymchwil i gyfranogwyr ymlaen llaw, fel eu bod yn cael gwybod beth i'w ddisgwyl?	☐	☐	☐
A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr fod eu cyfranogiad yn wirfoddol?	☐	☐	☐
A fyddwch chi'n cael cydsyniad ysgrifenedig gan y rhai sy'n cymryd rhan?	☐	☐	☐
A fyddwch chi'n egluro wrth y cyfranogwyr na fydd gwrthod cymryd rhan yn yr ymchwil yn effeithio ar eu triniaeth neu'u haddysg (os yn berthnasol)?	☐	☐	☐
Os yw'r ymchwil yn arsylwadol, a fyddwch chi'n gofyn i'r cyfranogwyr am eu cydsyniad i gael eu harsylwi?	☐	☐	☐
A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr eu bod yn gallu tynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm?	☐	☐	☐
Gyda holiaduron, a fyddwch chi'n rhoi'r dewis i gyfranogwyr i hepgor cwestiynau nad ydynt am eu hateb?	☐	☐	☐
A fyddwch chi'n dweud wrth y cyfranogwyr yr ymdrinnir â'u data yn gwbl gyfrinachol ac, os caiff ei gyhoeddi, na ellir eu hadnabod fel eu data hwy?	☐	☐	☐
A fyddwch yn cynnal ôl-drafodaeth gyda'r cyfranogwyr wedi iddynt gymryd rhan, mewn modd sy'n briodol i'r math o ymchwil a gynhaliwyd?	☐	☐	☐

Os atebwyd NA FYDDAF i unrhyw rai o'r cwestiynau uchod, rhowch eglurhad

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)			
Gwybodaeth i gyfranogwyr:	BYDD	NA FYDD	AMH.
A fydd pob cyfranogwr yn cael ei dalu?	☐	☐	☐
A fydd offer trydanol arbenigol neu offer arall yn cael ei ddefnyddio gyda'r cyfranogwyr?	☐	☐	☐
A fydd unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill i'r ymchwilydd neu'r Brifysgol yn deillio o'r astudiaeth hon?	☐	☐	☐
A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys camarwain cyfranogwyr yn fwriadol mewn unrhyw fodd, neu guddio nodau penodol yr astudiaeth yn rhannol neu'n llawn?	☐	☐	☐
Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhwng fanylion llawn			
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)			

ADRAN H: Risgiau a Ragwelir

Amlinellwch unrhyw risgiau a ragwelir a allai gael effaith niweidiol ar unrhyw rai o'r cyfranogwyr, yr ymchwilwyr a/neu'r Brifysgol, a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â nhw.
Risgiau i gyfranogwyr Er enghraifft: gofid emosiynol, datgelu ariannol, niwed corfforol, trosglwyddo data personol, gwybodaeth sefydliadol sensitif
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
Os yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys pynciau sensitif neu bynciau sy'n peri gofid neu gywilydd (e.e. gweithgarwch rhywiol, defnydd o gyffuriau) neu faterion sy'n debygol o ddatgelu gwybodaeth sy'n galw am weithredu pellach (e.e. gweithgarwch troseddol), rhwng fanylion y gweithdrefnau i ddelio â'r materion hyn, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth/gyngor (e.e. rhifau llinellau cymorth) a gynigir i'r cyfranogwyr. Sylwer, lle bo hynny'n berthnasol, y dylai gweithdrefnau cydsynio ei gwneud yn glir os darganfyddir rhywbeth sydd neu a allai fod yn anghyfreithlon yn ystod prosiect, ei bod yn bosibl y bydd angen ei ddatgelu i'r awdurdodau priodol
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
Risgiau i ymchwilydd Er enghraifft: diogelwch personol, niwed corfforol, gofid emosiynol, risg o gyhuddiad o niwed/anwedduster, gwrthdaro buddiannau
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)
Risgiau i'r Brifysgol/sefydliad Er enghraifft: cyhoeddusrwydd gwael, colled ariannol, diogelu data
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Canlyniadau niweidiol

Rhestrwch y mesurau a gyflwynwyd i gyfyngu ar unrhyw effeithiau neu ganlyniadau niweidiol yn sgil y gweithgarwch ymchwil, lle bo hynny'n briodol. Dylech gynnwys unrhyw brotocolau mewn argyfwng.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Os yw gweithgarwch ymchwil yn cynnwys plant neu oedolion agored i niwed, mae'n rhaid cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dod i unrhyw gysylltiad â'r cyfranogwyr hyn.

OES**NAC
OES****AMH.**

A oes tystysgrif DBS wedi'i sicrhau?

☐☐☐**ADRAN I: Adborth, Cydsyniad a Chyfrinachedd****Adborth**

Pa adborth a roddir i'r cyfranogwyr, sut y gwneir hyn a phryd?

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Cydsyniad gwybodus

Disgrifiwch y trefniadau i hysbysu darpar gyfranogwyr, cyn iddynt roi cydsyniad, o'r hyn mae'n ei olygu i gymryd rhan. Disgrifiwch y trefniadau i gyfranogwyr roi cydsyniad llawn cyn i'r gwaith o gasglu data ddechrau. Os yw'n amhriodol cael cydsyniad yn y modd hwn, eglurwch sut y ceir cydsyniad a sut y cofnodir hynny.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

Cyfrinachedd / Anhysbysrwydd

Nodwch sut y sicrhewr cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y cyfranogwyr mewn unrhyw gynnyrch. Os na chynigir anhysbysrwydd, eglurwch pam.

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

ADRAN J: Diogelu a Storio Data

Wrth gwblhau'r adran hon cyfeiriwch at Bolisi Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol a'r adnoddau helaeth ar dudalennau gwe Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol (<http://uwtsd.ac.uk/library/research-data-management/>).

YDY**NAC
YDY**

A yw'r gweithgarwch ymchwil yn cynnwys data personol (yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data)?

☐☐

Os YDY, rhodwch ddisgrifiad o'r data ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:

(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)

A yw'n cynnwys data personol sensitif (yn ôl diffiniad y Ddeddf Diogelu Data)?	☐	☐
Os YDY, rhowch ddisgrifiad o'r data ac eglurwch pam mae angen casglu'r data hyn:		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol:	BYDD	NA FYDD
Trosglwyddo data electronig mewn unrhyw ffurf?	☐	☐
Rhannu data ag eraill yn y Brifysgol?	☐	☐
Rhannu data â sefydliadau eraill?	☐	☐
Allforio data y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd neu fewnforio data o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig?	☐	☐
Defnyddio cyfeiriadau, codau post, ffacsys, e-byst neu rifau ffôn personol?	☐	☐
Cyhoeddi data a allai ganiatáu adnabod unigolion?	☐	☐
Defnyddio system rheoli data?	☐	☐
Archifo data?	☐	☐
Os atebwyd BYDD i unrhyw gwestiwn, rhowch fanylion llawn, gan egluro sut y caiff hyn ei wneud yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (a/neu unrhyw drefn ryngwladol gyfatebol):		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

A fydd y gweithgarwch ymchwil yn cynnwys storio data personol ar un o'r canlynol:	BYDD	NA FYDD
Ffeiliau llaw (h.y. ar ffurf papur)?	☐	☐
Cyfrifiaduron y brifysgol?	☐	☐
Cyfrifiaduron cwmnïau preifat?	☐	☐
Cyfrifiaduron cartref neu bersonol eraill?	☐	☐
Gliniaduron / CDs / disgyrwyd cludadwy / cofbinnau?	☐	☐
Storio yn y "cwmwl" neu wefannau?	☐	☐
Arall – noder:	☐	☐
Yn achos yr holl ddata a storir, eglurwch y mesurau sydd yn eu lle i sicrhau cyfrinachedd y data, yn cynnwys manylion diogelu'r data gan gyfrinair, eu hamgryptio a'u gwneud yn ddienw:		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
Rhestrwch bawb fydd â hawl gweld y data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil:		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
Rhestrwch bawb fydd â rheolaeth o'r data a gynhyrchir trwy'r gweithgarwch ymchwil ac a fydd yn gweithredu fel ceidwad y data:		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		
Rhowch fanylion y trefniadau storio data, yn cynnwys ble caiff y data ei storio, am ba hyd, ac ym mha ffurf. A fydd y data'n cael ei archifo – os felly, sut ac os na, pam.		
(dylai'r blwch hwn fynd yn fwy wrth i chi deipio)		

ADRAN K: Datganiad

Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i chyflwyno yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf wedi ceisio dynodi unrhyw risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch ymchwil ac rwyf yn cydnabod f'ymrwymadau innau a hawliau'r cyfranogwyr.

Wrth gyflwyno'r cais hwn cadarnhaf drwy hyn fy mod yn ymrwymo i sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni [Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol](#).

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad:

I fyfyrwr:

Cyfarwyddwr Astudiaethau/Goruchwyliwr:	
Llofnod:	
Dyddiad:	

I staff:

Pennaeth Ysgol/Deon Cynorthwyol:	
Llofnod:	
Dyddiad:	

Rhestr Wirio: Cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r ffurflen yn unol â'r canllawiau ac wedi atodi unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol:

☐	Rwyf wedi darllen y nodiadau canllaw a ddarperir cyn cwblhau'r ffurflen.
☐	Rwyf wedi cwblhau HOLL ADRANNAU PERTHNASOL y ffurflen yn llawn.
☐	Cadarnhaf fod y gweithgarwch ymchwil wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor.
☐	Rwyf wedi atodi copi o'r gymeradwyaeth derfynol/interim gan sefydliad allanol (lle bo'n briodol).
☐	Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y bydd y gweithgarwch ymchwil a enwir uchod yn bodloni Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol.
☐	Cyn cychwyn casglu data rwy'n deall ei bod yn rhaid i'r holl ddogfennau sydd wedi'u hanelu at ymatebwyr (yn cynnwys taflenni gwybodaeth, ffurflenni cydsynio, holiaduron, rhaglenni cyfweiliadau ac ati) gael eu cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/Goruchwyliwr, y tiwtor modwl neu'r Pennaeth Ysgol.

MYFYRWYR YMCHWIL A STAFF YN UNIG

Wrth brosesu'r cais hwn rhaid cyflwyno pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cais yn ysgrifenedig a'i hanfon drwy e-bost i pgresearch@uwtsd.ac.uk, gyda'r teitl 'Cymeradwyaeth Foesegol' a'ch enw i ddilyn.

Fe gewch wybod am ganlyniad eich cais drwy e-bost; felly mae'n bwysig eich bod yn darllen eich negeseuon e-bost Prifysgol a phersonol yn rheolaidd.

Dylai **MYFYRWYR AR RAGLENNI ISRADEDDIG NEU RAGLENNI MEISTR A ADDYSGIR** gyflwyno'r ffurflen hon (a chael y canlyniad) trwy systemau a eglurir i chi gan y goruchwyliwr/arweinydd modwl.

Mae'r ffurflen hon ar gael yn electronig ar dudalennau gwe y Swyddfa Academaidd:

<http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/>

Y Broses Ymgeisio

Rhaid i holl brosiectau ymchwil staff a myfyrwyr ymchwil gyflwyno'r Ffurflen Gais am Gymeradwyaeth Foesegol i **Bwyllgor Moeseg y Brifysgol** trwy'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig (pgresearch@uwtsd.ac.uk). Dylai ymchwil staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag astudiaeth bersonol ar gyfer rhaglenni israddedig neu raglenni Meistr a addysgir gael eu cyflwyno trwy weithdrefnau'r Gyfadran, a eglurir isod.

Ystyrir **Ffurflenni Cais am Gymeradwyaeth Foesegol** ar gyfer **ymchwil israddedig a Meistr a addysgir o fewn y Cyfadrannau**. Bydd y Cyfadrannau'n darparu manylion y prosesau penodol ar gyfer hyn. Os yw'r materion Moesegol o fewn unrhyw gais moesegol unigol yn peri pryder arbennig, bydd y Gyfadran yn cyfeirio'r rhain at Bwyllgor Moeseg y Brifysgol. Mae angen i unrhyw weithgarwch gan fyfyrwyr sy'n cynnwys casglu data gwreiddiol dderbyn cymeradwyaeth Foesegol. Mae hyn yn cynnwys gwaith aseiniad yn ogystal â thraethodau hir.

Nodiadau canllaw i gwblhau'r ffurflen

Adran A: Amdanoch chi

Cwblhewch bob adran berthnasol

Adran B: Cymeradwyaeth ar gyfer gweithgarwch ymchwil

Mae'n rhaid i gynigion ymchwil gael eu cymeradwyo mewn egwyddor cyn gwneud cais am Gymeradwyaeth Foesegol. Nid yw'r gymeradwyaeth i'r cynnig yn derfynol tan y derbynnir cymeradwyaeth foesegol.

Mae'r broses o gymeradwyo cynigion yn amrywio yn ôl yr unigolyn a'r rhaglen astudio:

- Myfyrwyr ymchwil, trwy gais ar ffurflen PG1 i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil
- Myfyrwyr a addysgir trwy adolygu cynnig ymchwil o fewn Cyfadrannau (darperir manylion penodol y prosesau hyn gan y Cyfadrannau)
- Staff, trwy gytundeb y Pennaeth Ysgol/Deon Cynorthwyol

Adran C: Deunyddiau Canllaw Moesegol Allanol

Mae'n ofynnol i nifer o feysydd disgyblaeth weithredu o fewn y codau moeseg ymchwil sy'n benodol i'r ddisgyblaeth (er enghraifft iechyd, seicoleg, addysg ac ati). Mae'n rhaid rhestru'r codau hyn a rhoi tic i gadarnhau eich bod wedi edrych ar y rhain.

Adran D: Gweithgarwch Ymchwil Cydweithredol Allanol

Rhowch fanylion y partneriaid cydweithredol allanol. Lle bo'n briodol, mae'n bosibl y byddwch yn dymuno cyflwyno copi o'r cytundeb cydweithredu allanol gyda'r Ffurflen Gais am Gymeradwyaeth Foesegol. Os mynna'r partner bod yr ymchwil yn mynd trwy ei broses cymeradwyo Moesegol fewnol ei hun yna rhowch fanylion y broses honno a chopi o unrhyw gymeradwyaeth derfynol (neu interim) a dderbyniwyd gan y sefydliad.

Adran E: Manylion y Gweithgarwch Ymchwil

Cofiwch ei bod yn bosibl na fydd unigolion sy'n adolygu'r Ffurflen Gais hon am Gymeradwyaeth Foesegol wedi gweld eich cynnig ymchwil, a hefyd efallai nad ydynt yn arbenigwyr ym maes penodol eich ymchwil. O'r herwydd dylai'r wybodaeth a roddir fod yn ddi-jargon ac wedi'i mynegi'n glir.

Teitl dangosol: defnyddiwch yr un teitl â'r hyn a ddefnyddiwyd ar y cynnig ymchwil.

Pwrpas: bydd y broses gymeradwyo Foesegol eisiau sicrhau bod y dulliau y bwriadwch eu defnyddio yn ddigonol ac yn briodol i nodau ac amcanion yr ymchwil. Gellir ystyried bod casglu data ychwanegol gormodol yn anfoesegol.

Dulliau Arfaethedig: mae'r broses cymeradwyo Moesegol yn ceisio sicrhau eich bod yn deall y dulliau a fwriedir, ac y gweithredir y dulliau hynny'n briodol heb gael effaith ddianghenraid ar ymatebwyr. Byddwch yn benodol os gwelwch yn dda.

Lleoliad: mae angen i hyn sôn am leoliad daearyddol a hefyd y sefyllfa leol (er enghraifft, o fewn Swyddfeydd yr Awdurdod Lleol yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio ystafell breifat ond yn agos at unigolion eraill). Os ydych yn casglu data o fewn lleoliad sefydliadol yna mae angen i chi egluro'r caniatâd rydych wedi'i gael i wneud hyn.

Gweithgarwch ymchwil y tu allan i'r DU: cwblhewch yr adran hon yn fanwl, a nodwch unrhyw arweiniad rydych wedi'i dderbyn. Yn ogystal disgrifiwch pa mor gyfarwydd (neu beidio) yr ydych â'r lleoliad y byddwch yn ei ddefnyddio.

Adran F: Cwmpas y Gweithgarwch Ymchwil

Ticiwch BOB UN o'r gweithgareddau ymchwil y gellid eu cynnal. Os bwriedir cynnal unrhyw fathau ychwanegol o weithgarwch, ychwanegwch flwch arall a'u disgrifio.

Os ydych wedi ateb 'na fydd' i bob cwestiwn yn adran F yna nid oes angen cwblhau adrannau G a J. Dylid ystyried adran H, ac mae'n bosibl y bydd angen ei chwblhau. Mae angen llofnodion o hyd yn adran K.

Adran G: Cyfranogwyr Arfaethedig

Ticiwch bob categori a allai fod yn berthnasol.

Niferoedd a Ffynhonnell: os ydych yn defnyddio cyfres o ddulliau neu weithgareddau ymchwil gwahanol, rhestrwch y niferoedd ar gyfer pob cyfnod/cam. Byddwch yn glir ynghylch sut y byddwch yn dod o hyd i ymatebwyr. A fyddwch yn defnyddio canolwyr, ac os felly, sut? Sut byddwch chi'n sicrhau y cydymffurfir â'ch strategaeth samplu?

Gwybodaeth i gyfranogwyr: dylai'r holl gyfranogwyr dderbyn gwybodaeth briodol am yr ymchwil, yr hyn a ddisgwylir ganddynt a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth y byddant yn ei darparu. Nid yw'r broses adolygu Foesegol yn gofyn am weld y ddogfennaeth hon, ond mae angen iddi gael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau yn achos myfyrwyr ymchwil, y goruchwyliwr/tiwtor modwl mewn perthynas â myfyrwyr ar raglenni a addysgir a'r Pennaeth Ysgol/Deon Cynorthwyol mewn perthynas ag ymchwil staff.

Adran H: Risgiau a Ragwelir

Mae lefel o risg yn gysylltiedig â phob ymchwil. Bydd yr atebion a roddwch i gwestiynau yn yr adran hon yn cael eu hadolygu i sicrhau fod gennych ddealltwriaeth briodol o'r math o risgiau dan sylw a sut y gallwch liniaru effeithiau'r risgiau hyn.

Risgiau i gyfranogwyr Meddyliwch yn ofalus iawn ynghylch sut y gallai eich gweithredoedd/cwestiynau/trafodaethau effeithio ar y bobl rydych yn eu cynnwys fel cyfranogwyr. Mae'n bosibl y byddwch chi'n ystyried y risg yn un bach ond byddai'n dal i fod yn risg. Mae gan sawl math o gwestiwn y potensial o wneud ymatebwyr yn llai hapus â'u bywyd / swydd; mae angen i chi adnabod a cheisio lleddfu effeithiau o'r fath.

Os mai perchnogion busnes yw'r rhain, gallai amser gyda chi leihau elw.

Mewn rhai lleoliadau mae risg corfforol yn un real iawn i gyfranogwyr ac i chithau, felly ystyriwch hyn.

Risg i chi, yr ymchwilydd Meddyliwch ble y byddwch yn cwrdd â phobl, ac a oes unrhyw beryglon yn gysylltiedig â'r lleoliad. Os ydych yn cwrdd â phobl fel unigolion, ystyriwch ddefnyddio man cyhoeddus. Yn gyffredinol peidiwch ag ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain na lleoliadau diarffordd. Os ydych yn siarad ag unigolion am faterion penodol, meddyliwch sut y gallai eu hymatebion effeithio arnoch chi'n emosiynol. Beth am y risg o gasglu data annigonol?

Risg i'r Brifysgol Wrth ymgymryd â'ch ymchwil, rydych yn gweithredu fel aelod o'r Brifysgol (myfyriwr neu staff). Mae proffesiynoldeb yn bwysig, felly mae'n bwysig bod yn drefnus iawn a pharatoi'n dda. Mae prydlondeb, eglurder ac ati oll yn rhan o hyn. Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau hyn? Rhaid i chi sicrhau nad ydych yn niweidio enw da'r Brifysgol mewn unrhyw ffordd nac yn gwneud unrhyw beth i danseilio enw da'r ymchwil mae'n ei gynnal a'i noddi. Mae cynnal safonau uchel o ran ymddygiad ac integreidd yn hanfodol yn hyn o beth. Mae'n rhaid i chi hefyd gynnal yr ymchwil mewn modd sy'n lleihau'r posibilrwydd o honiadau am esgeulustod yn erbyn y Brifysgol, ei hymchwilyddwyr ac unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n cydweithio â hi. Yn hyn o beth dylech bob amser gydymffurfio â fframweithiau, ymrwymadau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol sy'n ofynnol gan awdurdodau statudol a rheoleiddiol, yn ogystal â Chod Ymarfer Moeseg ac Integreidd Ymchwil y brifysgol. Mae sawl ffurf o gamymddwyn mewn perthynas ag ymchwil, yn cynnwys:

- dweud celwydd: dyfeisio canlyniadau ffug neu gynnyrch ffug eraill (e.e. arteffactau) a'u cyflwyno fel petaent yn real
- ffugio: camddefnyddio prosesau ymchwil neu newid neu hepgor data heb achos da
- llên-ladrad: defnyddio deunydd pobl eraill heb roi clod priodol iddynt
- methu â bodloni ymrwymadau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol: er enghraifft methu â datgan buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd; cam-gyfleu cyfraniad neu awduraeth; cam-gyfleu buddiannau; torri cyfrinachedd; diffyg cydsyniad gwybodus; camddefnyddio data personol; a cham-drin gwrthrychau neu ddeunyddiau ymchwil
- delio'n amhriodol â honiadau o gamymddwyn: methu â mynd i'r afael â throseddau megis ymdrechion i guddio camymddwyn a dial yn erbyn chwythwyr chwiban

Canlyniadau Niweidiol. Meddyliwch yn ofalus am y posibiliadau, a rhoi sylw iddynt yma

Adran I: Adborth, Cydsyniad a Chyfrinachedd

Adborth i gyfranogwyr: amlinellwch eich dull. A fydd trawsgrifiadau cyfweiliadau yn cael eu rhannu gydag ymatebwyr i wirio cywirdeb? A fydd crynodebau o ddadansoddiadau holiaduron yn cael eu darparu i ymatebwyr mewn rhyw fodd? A ddarperir adroddiad trosolwg? Sut a phryd?

Cydsyniad Gwybodus Mae'n rhaid i lythyr drafft / e-bost neu bennyn (neu droedyn) holiadur gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau/goruchwyliwr (os mai myfyriwr ymchwil ydych), goruchwyliwr/ tiwtor modwl os mai myfyriwr a addysgir ydych, neu'r Pennaeth Ysgol / Deon Cynorthwyol os ydych yn aelod o'r staff.

Cyfrinachedd / Anhysbysrwydd Esboniwch yn glir sut y byddwch yn sicrhau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd.

Adran J: Diogelu a Storio Data

Cyn cwblhau'r adran hon mae angen darllen gwybodaeth y Brifysgol ar Reoli Data Ymchwil. Mae'r cwestiynau sy'n dilyn wedi'u bwriadu i sicrhau cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data yn ogystal â phrotocolau ymchwil sefydledig.

Bydd nifer o weithgareddau ymchwil yn cynnwys trosglwyddo data'n electronig a'r defnydd o systemau rheoli data wrth grynhoi a dadansoddi data. Bydd angen i chi esbonio'r rhain mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

Meddyliwch yn ofalus ynghylch pwy fydd â hawl gweld eich data. Bydd hyn yn cynnwys goruchwyliwr ac arholwyr. Hefyd cofiwch y bydd traethawd ymchwil ar gael i'w weld trwy lyfrgell y Brifysgol a system y Llyfrgell Brydeinig. Os ydych yn ceisio gwaharddiad rhag gweld y traethawd am gyfnod o amser wedi iddo gael ei gwblhau, yna soniwch am hynny yma. Os byddwch yn darparu copi o'ch casgliadau, neu'n bwriadu rhoi cyflwyniad, i sefydliad sy'n hwyluso / cefnogi / cynnig mynediad, yna esboniwch hynny yn yr adran hon. Ond meddyliwch hefyd am yr egwyddor gyffredinol o rannu data, fel yr eglurwyd yn y wybodaeth ar Reoli Data Ymchwil.

O ran storio data, sicrhewch ddiogelwch, a hefyd lliniarwch effeithiau colli data.

Adran K: Datganiad

Sicrhewch bod y cydlofnodion wedi'u cynnwys

Edrychwch yn ofalus ar y rhestr wirio a sicrhewch eich bod yn cydymffurfio â phob un sy'n berthnasol i'ch ymchwil ac wedi'u ticio.

ATODIAD 2



Ffurflen gydsynio ar gyfer tynnu lluniau a ffilmio wrth weithio gyda phlant

At ddibenion hyfforddiant athrawon yn unig, cytunaf i ganiatáu i:

fel cynrychiolydd o'r adran Hyfforddiant Gychwynnol Athrawon: Yr Athrofa (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant), i:

Gymryd lluniau

Gymryd fideo

Tapio sain (Ticiwch fel y bo'n briodol)

(Ticiwch fel y bo'n briodol)

Cydsyniad rhieni:

Cydsyniad y plentyn:

Enw'r pennaeth:

Arwyddwyd gan:

Enw'r ysgol:

Dyddiad:

Nodyn i fyfyrwyr

Dylech geisio cydsyniad y Pennaeth bob tro cyn tynnu lluniau neu ffilmio plant.

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, cytunaf y byddaf yn defnyddio'r deunydd ddim ond at ddibenion hyfforddiant athrawon. Wrth wneud hyn byddaf yn glynu at y cod ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan athrawon. Ar wahân i diwtoriaid y cwrs, ni fyddaf yn trosglwyddo'r wybodaeth i drydydd parti.

Arwyddwyd gan y myfyriwr:

Dyddiad:

[Os yn gymwys]

Rwy'n hapus i'r brifysgol fy ffilmio a defnyddio'r deunydd at ddibenion hyfforddi:

Enw'r myfyriwr:

Arwyddwyd gan:

Cyswllt ffôn:

ATODIAD 3

RHESTR WIRIO PROSIECT YMCHWIL Enw: _____

Mae'r testun yn ymwneud ag agwedd ar addysg gynradd sy'n bwysig ichi; mae modd ymchwilio iddo a'i ateb, ac mae'n eich galluogi i wneud cyfraniad newydd a gwreiddiol i'r ymchwil sy'n bod yn barod.	
Mae gan y testun a ddewiswyd y potensial i wella agwedd ar eich arfer dosbarth chi a/neu bobl eraill.	
Mae'r dudalen deitl yn cynnwys teitl y prosiect ymchwil, eich enw/rhif myfyriwr, y cymhwyster y cyflwynir y prosiect ymchwil ar ei gyfer, enw'r brifysgol (Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant), enw'r goruchwyliwr, a'r dyddiad (y mis a'r flwyddyn yn unig).	
Mae'r Diolchiadau'n cydnabod y bobl sydd wedi cynorthwyo naill ai gyda'r ymchwil neu gyda'r broses o ysgrifennu'r prosiect ymchwil.	
Mae'r Wynebddalen yn cynnwys datganiad mai eich gwaith chi'n unig yw'r gwaith a geir yn y prosiect ymchwil, ac eithrio lle cyfeirir at waith pobl eraill.	
Mae'r rhifau tudalennau yn y Tabl Cynnwys yn gywir.	
Mae'r Cyflwyniad yn amlinellu nod ac amcanion eich prosiect ymchwil, cefndir eich astudiaeth a pham ei bod yn bwysig.	
Mae eich Adolygiad Llenyddiaeth yn dangos eich bod yn ymwybodol o waith awduron allweddol, ymchwil diweddar a syniadau cyfredol am eich dewis faes, ac mae'n darparu trafodaeth gref o'r hyn mae'r llenyddiaeth yn ei ddatgelu am y testun.	
Mae teitlau'r penodau a chynnwys y prosiect ymchwil wedi'u cymeradwyo gan y tiwtor.	
Mae'r Ymchwil Gwreiddiol yn egluro sut y gwnaethoch gasglu tystiolaeth i ateb eich cwestiwn ymchwil, mae'n egluro beth mae'r dystiolaeth wedi'i ddangos; mae'n gwneud cysylltiadau priodol â'r adolygiad llenyddiaeth.	
Mae'r Casgliad yn dod i gasgliadau synhwyrol yn seiliedig ar dystiolaeth a chanfyddiadau ac yn archwilio oblygiadau ehangach yr astudiaeth.	
Mae'r Atodiadau'n cynnwys unrhyw ddeunydd ychwanegol perthnasol a fyddai'n cymhlethu'r prif destun pe bai'n cael ei gynnwys yno.	
Mae'r cyfeiriadau wedi'u cwblhau yn unol â Llawlyfr Cyfeirnod y Brifysgol.	
Mae'r gwaith yn osgoi gwneud datganiadau ysgubol. Mae tystiolaeth i gefnogi pob honiad.	
Mae'r gwaith wedi'i olygu a'i brawf ddarllen cyn ei gyflwyno.	
Mae'r gwaith wedi'i ysgrifennu mewn arddull academiaidd priodol.	
Mae'r gwaith wedi'i gyfeirnod yn unol â Chanllaw Cyfeirnod y brifysgol.	
Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno mewn modd proffesiynol caboledig.	
Mae'r prosiect ymchwil yn cydymffurfio â Datganiad Moeseg yr Ysgol.	
Mae'r prosiect ymchwil wedi'i gyflwyno yn Arddull yr Ysgol fel yr amlinellir yn llawlyfr y modwl.	
Mae'r gwaith yn cynnwys tua 6,000 o eiriau (heb gynnwys yr Atodiadau, y blychau testun a'r cyfeirnodau.) (Caniateir 10% uwchlaw'r ffigur hwn.)	

ATODIAD 4: Cytundeb Tiwtor-Myfyriwr *Tutor-Student Agreement*

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

ECAD6003/ECAD6003C**Cytundeb Tiwtor-Myfyriwr *Tutor-Student Agreement***

Myfyriwr <i>Student</i>	Grŵp <i>Group</i>	Rhif <i>Number</i>	
Cwestiwn/maes ymchwil a awgrymir <i>Suggested research question/area of research</i>			
Cwestiwn/maes ymchwil a gytunwyd <i>Agreed research question/area of research</i>			
Teitl y prosiect ymchwil <i>Research project title</i>			
Tiwtor <i>Tutor</i>			
Cytundeb cyfarfodydd <i>Meetings arrangement</i>			
Dyddiad a lleoliad y cyfarfod <i>Date and place of meeting</i>	Unigol <i>Individual</i>	Grŵp <i>Group</i>	Wedi mynychu <i>Attended</i>
			Tiwtor <i>tutor</i>
Sylwadau <i>Comments</i>			

